



Y daflen newyddion a CARROG i LLDIART y PARC

Bydd £5 o wobr i unrhyw un all ddod o hyd i'r gast Ffwl Ebrill yn y rhifyn hwn. Bydd rhaid ichi graffu'n arw- mae'n un cyfrwys iawn!

Yn y rhifyn hwn ceir newyddion diweddaraf am y cyfyngiad pwysau ar y bont sy'n anochel erbyn hyn ond gobeithio bydd y cyngor yn gwneud rhywbeth i rybuddio gyrwyr cerbydau hir am y mynediad anodd.

Rydym wedi cychwyn gwario ein harian grant i brynu camera gan obeithio bydd y trigolion yn ei ddefnyddio ac yn anfon storïau a lluniau i'r Bont.

Llwyddiant yn yr URDD

Bu disgyblion Ysgol Carrog yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llangollen y mis hwn.

Celf a Chreffft - Poppy Edwards, Hollie Edwards, Sioned Roberts, Bethany Smith.

Llwyfan - Adrodd o dan 8 oed Abbie Jones

Adrodd o dan 10 oed - Oliver Knight

Adrodd o dan 12 oed - Eleanor Sansom

Unawd Piano - Alice Gonzalez

Daeth y Band a'r Grwp Recorder yn gyntaf yn yr Eisteddfod Gylch ac yn Eisteddfod y Sir. Byddant yn cynrychioli Sir Ddinbych yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Rhuthun.

Daeth Poppy Edwards yn ail yn Eisteddfod y Sir am ei phaentiad.

RHYS WEBB, O.B.E. yn agor pencadlys newydd y Sir

I anrhydeddu ei wasanaeth hir i Lywodraeth Leol am dros 50 o flynyddoedd fe dderbyniodd ein Rhys Webb wahoddiad i agor yn swyddogol Neuadd y Sir newydd yn Rhuthun ar ddydd Gwener 31 Mawrth.

Bu Rhys yn gwasanaethu fel Cyngorydd a Chadeirydd Cyngor Clwyd a Chyngor Sir Ddinbych. Gwnaed yn gadeirydd Bwrdd Menter Ariannol Breifat Cyngor Sir Ddinbych o gychwyn y cynllun hyd iddo gwblhau, gan arwain tîm a ddaeth â Neuadd y Sir i fodolaeth.

Parcio Ceir yng Nghorwen

Erbyn hyn mae'n debyg ei bod hi'n anochel y bydd y Cyngor Sir yn codi tâl am barcio yng Nghorwen. Cafodd y ddeddf sy'n caniatáu codi tal am barcio ei phasio yn 1996 ond roedd gan Gorwen a rhai trefi eraill dreth o 'ddim'. Yn ôl pob golwg cynhwysir y cynnig i safoni'r taliadau am barcio ledled y sir yn y cynigion cyllideb am 2006 a roddwyd gerbron cyfarfod llawn y cyngor yn 2005. Mae tref Corwen yn cael ei chynnwys ymhlith nifer o drefi eraill ac o'r herwydd mae'n ymddangos nad oes modd eithrio unrhyw dref unigol o'r taliadau parcio safonol. Ond mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cynnig yn llwyr a gofynnodd am gyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor i drafod yr oblygiadau, yn arbennig o ystyried nad oes prin ddim lleoedd parcio eraill.

Oherwydd hyn, mae'r Cyngor Sir yn cyfarfod â'r Cyngor Cymuned ac â Chymuned Busnes Corwen ddydd Iau 27 Ebrill 2006. Ni chodir unrhyw daliadau tan ar ôl y cyfarfod hwn.

Mae pobl yr ardal yn teimlo'n gryf am y mater a bu un brotest a achosodd atal traffig ar yr A5.

CYMDEITHAS CARROG

Casglwyd £140 eleni with fynd o amgylch y pentref yn canu carolau, ac mae'r arian eisioes wedi mynd tuag at ymddiriedolaeth "Anthony Nolan" sydd wedi bod yn hanfodol o bwysig tuag at wellhad Anna Culshaw. Carem ddiolch i'r cantorion a'r cerddorion a diolch arbennig i bawb a gyfrannodd.

Yn mis Ionawr aeth rhai ohonom i weld pantomeim "Dick Whittington Rock'n Roll" yn Theatr Clwyd yr Wyddgrug. Cafwyd noson ardderchog a canmoliaeth arbennig i'r actorion i gyd. Diolch hefyd i Edwin Jones am drefhu'r noson ac edrychwn ymlaen at fynd y tro nesaf!

Diwedd mis Chwefror cawsom ein noson flynyddol i ddathlu Dydd Gwyl Dewi, mae hon yn noson boblogaidd erbyn hyn a pawb wedi mwynhau y bwyd blasus a baratowyd gan Eirian ac Edwin Jones Ty Mawr a merched y gymdeithas. I'n diddanu eleni death "Hogie'r Berferddwlad" atom a cafwyd adloniant bendigedig ganddynt, dilolch hefyd am gyfraniad Sion Dolben Hughes ac Alun Williams. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at llwyddiant y noson.

Er Cof

Adroddwn gyda thristwch mawr am farwolaeth Joan 'The Grouse' Jones yng nghartref y teulu ger yr Amwythig. Roedd Joan yn adnabyddus yn dafarnwr Tafarn y Grouse. Bu'n rhedeg y dafarn, gyda'i gwr o 1970 hyd 1980. Mae'n gadael mab, Alan, a theulu ac anfonwn iddynt ein cydymdeimlad dwys.

Bu'r angladd yn Amlogfa'r Amwythig ddydd Llun 10 Ebrill am 1.20pm.

Difrod a lladrad yn yr Eglwys

Bu fandaliaid yn difrodi'r Eglwys rhwng canol nos ar Sadwrn 25 Mawrth ac yn gynnar fore Sul. Difrodwyd y goleuadau diogelwch ac aed a'r mat o'r porth. Mae'n anodd deall pam fyddai unrhyw un eisïau hen fat coco. Amcanir mai tua 3 i 5 y bore y digwyddodd hyn. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth a pheidiwch anghofio rhif Crimestoppers 0800 555 111.

DWYWAITH yn GYNTAF I BLANT CARROG!

Cychwyn o'r arosfan newydd yn Llidiart y Parc am 9.30 a.m. ddydd Llun, Mawrth 20fed. Roedd plant Ysgol Cae Drewyn, Corwen a'u hathrawon eisoes ar y bws ac roedd plant Llantysilio yn mynd i ymuno â ni yn Llangollen.

Roedd pawb wedi bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at ein taith i Gaerdydd ers wythnosau ac wedi cynllunio beth i fynd gyda ni – digon o fferins am dri diwrnod.

Roedd ein stop cyntaf yn ymyl Henffordd i gael cinio mewn lle picnic ac i Dave y gyrrwr gael seibiant, yna ymlaen â ni i'r Pwll Mawr ym Mlaenafon am yr antur fawr. Ar ôl gwisgo helmed a lamp dyma ni i lawr am 300 troedfedd mewn caets. Roedd ein harweinydd yn disgrifio bywyd y gl wr o dan y ddaear inni a sut roedd plant ein hoedran ni'n gweithio'n gwthio'r dramiau glo a chludo glo. Gwelsom y stablau ar waelod y pwll ble roedd y ceffylau'n byw pan nad oeddent yn tynnu'r dramiau glo. Roedd yr holl brofiad yn gyffrous dros ben nes i'n harweinydd ddiffodd y goleuadau a'n gadael mewn tywyllwch llwyr.

Ar ôl gadael y Pwll Mawr a mynd tua Chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd roeddwn yn awyddus gweld yr ystafelloedd gwely ble roeddem yn aros am ddwy noson Yn ystod ein hymweliad cawsom daith o gwmpas Stadiwm y Mileniwm gyda'u Neuadd Gyngerdd wych ble bu nifer o enwogion yn perfformio a euthum i'r ystafelloedd gwisg a ddefnyddiodd Will Young a II Divo yn ystod y Sioe Frenhinol. Ar ôl y daith cawsom groeso gan Hywel, ein gwestai yr Urdd, cael swper ac yna mynd i chwarae bowlio deg mewn lle cyfagos. Euthum i'r gwely m ddeg o'r gloch ar ôl diwrnod hir a chyffrous a mynd i gysgu ar unwaith.

Y diwrnod canlynol cawsom frecwast wedi'i goginio cyn teithio i Sain Ffagan, yr Amgueddfa Werin. Cawsom weld y tai gwahanol, Ysgol Oes Fictoria, talwrn ceiliogod a ddaeth o Ddinbych, Pentref Yr oes Geltaidd, a Thy'r Dyfodol. Cawsom ginio gan yr Urdd o dan do am ei bod yn ffyrnig oer yn y gwynt. Deuthum yn ôl i'r Ganolfan ar ôl bod yn Asda ble roedd ar y plant angen fferins. Cyn y daith. Cawsom orffwys yn ein stafelloedd cyn swper ac yna i ffwrdd â ni i'r sinema i weld The Pink Panther. Wedyn, dyma ni'n ôl i'r Disgo a drefnwyd gan Hywel a ddysgodd ddawns yr Urdd inni a chwarae llawer o'n hoff gerddoriaeth. Ar ôl diwrnod blinedig arall roeddwn yn barod i'n gwelyau eto. Y bore wedyn roedd brechwast am 8.30 am ein bod am fynd i'r Senedd sydd ar draws y ffordd o'n llety. Rhoddodd Karen Sinclair, ein AC lleol sgwrs inni am beth sy'n digwydd yn y Senedd a'n tywys o gwmpas yr adeilad i ddangos ble roedd popeth yn digwydd. Hefyd, cawsom gyfarfod â Janet Ryder a atebodd ein holl gwestiynau. Ar ol y daith cawsom dro o gwmpas Bae Caerdydd ac yn ôl i'r ganolfan am ginio ac wedyn ar y bws ar gyfer ein taith adref gan gyrraedd am 6.30 p.m. wedi mwynhau i'r eithaf.

A beth am ddod yn gyntaf? Ni yw'r ysgolion cyntaf o Sir Ddinbych i aros yng nghanolfan yr Urdd a'r cyntaf yng ngogledd Cymru i ymweld â'n Senedd Newydd.

Disgyblion blwyddyn 5 & 6.

YSGOL CARROG PUPILS AT THE SENEDD



YSGOL CARROG - St. David's Day Concert



Newyddion Diweddaraf am Y Bont

Byddwch wedi sylwi fod y gorchmynion traffig swyddogol wedi'u cyhoeddi'n hysbysu bod y cyfyngder pwysau wedi codi i 18 tunnell fetrig i gydymffurfio â deddfwriaeth Ewrop ar hyn o bryd. Cytunodd Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i archwilio'r posibilrwydd o wella'r arwyddion ar gyrion y pentref gan rybuddio traffig o'r mynediad cul i'r bont a'i lled ar gyfer cerbydau hir.

Cymhorthdal Y BONT

Erbyn hyn rydym wedi gwario rhan gyntaf y grant drwy brynu camera Canon SLR a byddwn yn trefnu cwrs am ddim i drigolion sydd yn dymuno defnyddio'r camera. Os hoffech ddod i'r cwrs yna gofynnir ichi gysylltu â'r bont drwy'r rhifau cysylltu ar y dudalen hysbysebion er mwyn inni gael rhyw syniad o niferoedd.

OLAN YR AFON

“Systemau mordwyo lloeren yn dinistrio ein cymunedau gwledig” dyna oedd neges nifer o erthyglau mewn papurau newydd y mis hwn. Mae nifer cynyddol o gwynion oddi wrth y cymunedau gwledig ynghylch gyrwyr lorïau mawr sy’n dilyn y systemau mordwyo hyn heb feddwl. Mae’r systemau’n eu gyrru ar y ffyrdd byrraf. O’r herwydd, daeth nifer o wagenni mawr ar ffyrdd oedd yn rhy gul a throellog o lawer iddynt gan ddod i drafferthion ac achosi tagfa draffig a llawer o helynt i bobl leol. Mae effaith hyn mor fawr mewn rhai ardaloedd nes iddynt alw am dynnu’r ffyrdd bach oddi ar y mapiau a ddefnyddir gan y systemau hyn. Ddwywaith o leiaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu lorïau mawr yn achosi rhwystr ar ffyrdd yn ardal Carrog. Y tro cyntaf, bu lori anferth yn aros y tu allan i Dewis Dyddyn gan ollwng gwynt o’r breciau cryfion. Roedd y cerbyd yn llenwi’r ffordd yn gyfan gwbl gan rwystro’r holl draffig ac eithrio cerddwyr a beicwyr. Almaenwr oedd y gyrrwr â nwyddau ganddo ar gyfer y stâd ddiwydiannol yng Nghorwen. Roedd y cwmni roedd y gyrrwr yn gweithio iddynt wedi rhoi cyfesuryn GPS iddo, nid ar gyfer Ystâd Llidiart ond ar gyfer Llidiart y Parc ar hyd y ffordd gefn.

Sylweddolodd yn fuan iawn na all ei lori, oherwydd y pwysau a’r hyd groesi’r bont. Roedd hefyd yn amheus ynghylch mynd ymlaen ar hyd ffordd Ty Nant tua Glyndyfrdwy. Cytunais innau na allai cerbyd mor fawr deithio ar y troeon cul. Roeddem yn anghywir yn hyn, ond adroddaf yr hanes hwnnw eto.

Gan ddefnyddio medrau rhyfeddol llwyddodd i facio drwy’r pentref gan osgoi nifer o geir oedd wedi’u parcio a llwyddo o’r diwedd i ddod ‘nôl i’r ffordd tua chyffordd Maes y Llan gan gau’r ffordd unwaith eto.

Yr ail dro, wrth ddod yn ôl o Lyndyfrdwy ar hyd y ffordd gefn gwelais fod y ffordd wedi’i chau gan lori arall anferth gyda gyrrwr o Ffrancwr yn defnyddio GPS ar hyd y ffordd gefn o Langollen gan barhau i ddilyn ei gyfarwyddiadau wrth iddo fynd i fyny i gyfeiriad ffordd Bwlch Goch i Fryneglwys. Llwyddodd i fynd ar hyd y canllath cyntaf cyn i’r trofeydd a’r ffordd serth ei rwystro a llithrodd yn ôl gan stopio yn y triongl o laswellt ar waelod y ffordd a bron cau’r ddwy ffordd. Roedd wedi’i ddal yn y clawdd mor dynn fel nad oedd modd symud o gwbl.

Bu rhaid galw am lori torri - i - lawr ac ymhen oriau wedyn daeth y tryc a’r lori i lawr Ffordd Ty Nant ac i’r Pentref, gan brofi fod y gyrrwr o’r Almaen a finnau y naill a’r llall yn anghywir gan gredu na allai cerbyd mor fawr fynd ar hyd y ffordd gefn. Mae nifer o fannau ym Mhrydain nad oes fapiau cyfrifiadurol ar eu cyfer - Ynys Manaw yn un. O geisio defnyddio’r system ar ffyrdd yr Ynys ceir y neges’ Ewch i’r ffordd agosaf’ Tybed ai ffordd gwrtais o ddweud ‘ ewch o ma!’ ydy hwn.

TRWYDDED ADEILADAU NEWYDD I’R NEUADD

Oherwydd y newidiadau yn Deddfau Trwyddedu bu rhaid gwneud cais newydd ar gyfer y Neuadd. Yn ôl y ddeddf Trwyddedau 2003 mae angen trwydded ar gyfer adloniant a reolwyd - fel dramâu, ffilmiau digwyddiadau chwaraeon o dan do, darparu adloniant cerddoriaeth dawnio, lluniaeth hwyr, swper ac yn y blaen a darparu alcohol. Rhaid cael trwydded ar gyfer pob digwyddiad a gynhelir yn y Neuadd o gyngherddau plant i ffeiriau eglwys hyd yn oed os nad oes alcohol yn cael ei ddarparu. Nid ddisgwylir y bydd y Neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer llawer mwy o ddigwyddiadau nag a gynhelir yma ar hyn o bryd (tua 12 noson y flwyddyn) ond rhaid inni roi’r drwydded mewn geiriau hyblyg er mwyn caniatáu digwyddiadau fel Carolau o gwmpas y Goeden Nadolig, Carnifal Carrog neu bartïon preifat. O dan ofynion y Ddeddf, rhaid i ddaliwr trwydded bersonol fod yn oruchwyliwr a enwyd ar gyfer darparu alcohol. Ein diolch i Sarah Kenrick am gytuno i wneud y gwaith.

Mae’r cais hwn wedi golygu llawer o waith caled a llawer o amser i’r Cadeirydd ac i Ysgrifennydd y Neuadd gan greu 8 amlen a phob un yn cynnwys 30 tudalen.